

**Jeremy Miles AC/AM**  
**Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit**  
**Counsel General and Brexit Minister**



**Llywodraeth Cymru**  
**Welsh Government**

Ein cyf/Our ref MA/P/CG/1434/19

David Rees AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

[David.Rees@cynulliad.cymru](mailto:David.Rees@cynulliad.cymru)  
[SeneddEAAL@cynulliad.cymru](mailto:SeneddEAAL@cynulliad.cymru)

18 Gorffennaf 2019

Annwyl David,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mehefin wedi i mi fod yn bresennol yn eich Pwyllgor ar 3 Mehefin i drafod parodrwydd Cymru ar gyfer Brexit.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu eich pryderon am yr effeithiau niweidiol posibl ar Gymru os yw'r DU yn ymadael â'r UE heb gytundeb. Rydym wedi dweud dro ar ôl tro y byddai ymadael heb gytundeb yn drychinebus ar gyfer y DU gyfan, ond yn enwedig ar gyfer Cymru, ac rydym wedi nodi dro ar ôl tro na fydd yn bosibl i liniaru effaith canlyniad heb gytundeb yn gyfan gwbl. Mae ffigurau Llywodraeth y DU eu hunain yn dangos y byddai economi'r DU rhwng 6.3% a 9% yn llai yn y tymor hir mewn sefyllfa heb gytundeb. Yng Nghymru dengys y ffigurau y byddai'r economi 8.1% yn llai.

O ganlyniad i hyn, mae'n bwysig ein bod yn gwneud popeth y gallwn i baratoi, a chefnogi pobl, gwasanaethau cyhoeddus a busnesau Cymru.

Yn eich llythyr, roeddech yn gofyn am ragor o wybodaeth am nifer o bwyntiau, sydd wedi'u nodi isod.

## **Parodrwydd cyffredinol ac Operation Yellowhammer**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400  
[PSCGBM@gov.wales](mailto:PSCGBM@gov.wales) / [YPCCGB@llyw.cymru](mailto:YPCCGB@llyw.cymru)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roeddech yn holi am y negeseuon allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r ymarfer gwersi a ddysgwyd, ac unrhyw gamau gweithredu yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau a nodwyd. Atgyfnerthodd yr ymarfer gwersi a ddysgwyd ein dealltwriaeth bresennol nad yw'n bosibl i Gymru baratoi mewn modd ynysig, a bod paratoadau yn llawer mwy effeithiol pan mae cysylltiadau gwirioneddol rhwng gweinyddiaethau; ac efallai na fydd yr effaith waethaf i'w themlo yn syth, ond yn cronni dros amser gan effeithio ar y bobl fwyaf agored i niwed.

Rydym wedi bod yn paratoi mewn ffordd strategol, gan edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i liniaru'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, sy'n cymharu'n ffafriol â dull gweithredu Llywodraeth y DU. Rydym yn adeiladu ar ein myfyrdodau i sicrhau bod ein cynlluniau mor gadarn â phosibl. Yn benodol, ystyried a oes angen i unrhyw un o'n rhagdybiaethau sylfaenol newid. Er enghraifft, rydym wedi bod yn ystyried goblygiadau dyddiad ymadael posibl yn yr hydref yn lle'r gwanwyn a fydd yn golygu bod pwysau tymhorol gwahanol ar y GIG, a gallai hyn arwain at broblemau stoc yn y sector manwerthu, gyda llai o le i storio nwyddau a fydd yn cael eu cronni yn y cyfnod cyn y Nadolig, o'i gymharu ag ym mis Mawrth. Ond, mae ansicrwydd yn parhau o ran yr effaith debygol yn y tymor byr a bydd canlyniadau ymadael heb gytundeb y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol ni. Dyma pam y mae angen i'n paratoadau ar gyfer canlyniad heb gytundeb fod yn drylwyr, yn hyblyg, ac ymateb i newidiadau yn y byd busnes.

Roeddech yn holi hefyd ynghylch lefelau trosiant staff mewn cysylltiad â pharodrwydd a chynllunio ar gyfer ymadael heb gytundeb. Ar y cyfan, mae Llywodraeth Cymru wedi gallu ailgyfeirio a blaenoriaethu adnoddau'r Gwasanaeth Sifil i ymdopi gyda'r galw cynyddol arnynt o ganlyniad i baratoi ar gyfer Brexit. Cynyddwyd y capasiti rywfaint drwy benodi ar gyfer cyfnodau penodol, neu dros dro, i baratoi a chynllunio ar gyfer Brexit heb gytundeb. Nid ydym wedi gweld tystiolaeth o gynnydd mewn trosiant staff ers mis Ebrill 2019, gyda'r mwyafrif helaeth o bobl a oedd yn gweithio ar baratoadau ar gyfer Brexit yn dal i fod yn eu swyddi. O gymharu, dywedir bod 6,000 o Weision Sifil yn Whitehall wedi'u tynnu oddi ar ddyletswyddau yn ymwneud â pharatoadau ar gyfer canlyniad heb gytundeb.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod effaith pwysau, ansicrwydd a natur anhrefnus Brexit ar unigolion, ac rydym yn parhau i adolygu adnoddau ar gyfer swyddi uwch sy'n ymdrin â pharatoadau ar gyfer Brexit i sicrhau bod digon o adnoddau a chefnogaeth i'r unigolion a'r timau hynny.

## **Parhad cadwyni cyflenwi**

Gwnaethoch esbonio bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dweud wrthy, er y gall llywodraeth leol sicrhau ei hun i ryw raddau o ran gwasanaethau sy'n cael eu cyflenwi gan contractwyr, y gallai ffactorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth yn ymwneud â pharhad cadwyni cyflenwi arwain at fethiant contractau, yn enwedig os bydd Brexit heb gytundeb. Roeddech yn gofyn beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gynorthwyo'r sector cyhoeddus datganoledig i leihau'r posibilrwydd y bydd hyn yn digwydd mewn sefyllfa heb gytundeb.

O ran caffael, er bod awdurdodau lleol yn gyfrifol am eu contractau eu hunain, gan fod ganddynt drefniadau penodol ar gyfer eu materion cytundebol eu hunain mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal nifer o weithgareddau yn rhagweithiol i gynorthwyo'r holl awdurdodau sy'n rhoi contractau yn Sector Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys cynnal nifer o weithdai yn ymwneud â pharodrwydd ar gyfer Brexit. Rydym wedi meithrin cysylltiadau gydag awdurdodau lleol i gael data ar gyflenwadau er mwyn i wasanaethau cymdeithasol allu casglu ynghyd unrhyw gynnyrch allweddol a nodwyd mewn man canolog. Er ei bod yn anodd cael y data hwn, y nod oedd cael haen ychwanegol i liniaru yn erbyn y risg i gynlluniau y mae awdurdodau lleol eisoes yn eu rhoi ar waith fel rhan o ddull aml-haen y GIG. Mae

Cydwasaethau'r GIG wedi cadarnhau eu bod yn awr yn cadw stoc ychwanegol o gynnyrch allweddol er mwyn gallu cefnogi'r gwasanaethau cymdeithasol os na fyddant yn gallu cael mynediad at y rhain yn y modd arferol.

Os daw unrhyw risgiau i'r amlwg yn y gadwyn gyflenwi, mae trefniadau sefydledig ar waith i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gydag asiantaethau partneriaeth, drwy Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, i asesu'r effaith, a chymryd camau priodol os oes angen.

Mae Llywodraeth Cymru yn helpu awdurdodau i adnabod a oes angen iddynt wneud mwy i sicrhau eu bod wedi gwneud paratodau digonol, ac asesu cadernid neu effeithiolrwydd y paratodau hynny. Rydym yn eu cynorthwyo i wneud hynny, gan gynnwys cyllid ar gyfer adnoddau ychwanegol a chefnogi ymateb cydgysylltiedig.

Mae gennym strwythurau ar waith ar gyfer meithrin cysylltiadau cryf a chyfathrebu gydag awdurdodau lleol, fel Panel Cyngori Parodrwydd (UE) Llywodraeth Leol, sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Drwy'r fforwm hwn, mae lefelau parodrwydd gan gynnwys cydnerthedd cadwyni gyflenwi yn cael eu trafod a'u hasesu yn rheolaidd, yn enwedig y cadwyni cyflenwi bwyd a gofal cymdeithasol.

Rydym hefyd yn cyfathrebu yn rheolaidd gyda gweithwyr caffael proffesiynol yn sector cyhoeddus Cymru ar faterion sy'n ymwneud â Brexit. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyflwyniadau wyneb yn wyneb yn sector cyhoeddus Cymru, gan gynnwys yng nghyfarfod penaethiaid caffael CLILC i sicrhau dull gweithredu cyson;
- Newyddlen Brexit reolaidd i'r proffesiwn;
- Mynd ati i gysylltu â Phenaethiaid Caffael yr awdurdodau lleol i ofyn am eu "pryderon ynglŷn â Brexit" i benderfynu pa gamau gweithredu eraill all fod yn briodol;
- Cynhyrchu dogfen Cwestiynau Cyffredin;
- Cynnal arolwg ar-lein ym mis Mehefin 2019 i asesu'r lefel bodlonrwydd ynglŷn â'r cyfathrebu ar gaffael ar gyfer Brexit.

Mae tîm caffael Brexit wedi ymrwmo i gydlynu cymaint o'r gwaith uchod â phosibl. Maent yn ymwneud yn agos â'r gwaith o liniaru risg y gadwyn gyflenwi gyda Llywodraeth y DU ac felly yn gallu gweithio yn hyblyg i ddsbarthu gwybodaeth yn gyflym.

## **Codi Ymwybyddiaeth**

Rydych hefyd wedi gofyn pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella ymwybyddiaeth o'r angen am dystysgrifau Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI) ymysg busnesau Cymru. Nid yw'r mater hwn wedi'i ddatganoli, ac mae CThEM wedi ysgrifennu at yr holl fusnesau sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW i roi gwybod iddynt y bydd angen iddynt gael rhif EORI.

Ond, gan gydnabod ei bwysigrwydd ar gyfer paratodau cyffredinol ac ar gyfer yr economi, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu cyngor i fusnesau Cymru at ddeunydd cyfathrebu CThEM. Ar 2 Gorffennaf, cyhoeddwyd pum cam gweithredu syml a rhad i helpu busnesau Cymru i baratoi ar gyfer Brexit heb gytundeb. Rydym wedi cyhoeddi'r cyngor hwn ar ein gwefan Paratoi Cymru ac ar dudalen lanio allforion y porth Brexit (<https://llyw.cymru/ydych-busnes-chin-barod-ar-gyfer-brexit-heb-gytundeb-os-nad-yw-maer-amser-yn-prinhau>). Mae'r camau yn cynnwys yr angen am rif EORI, sef gwybodaeth sydd wedi'i hyrwyddo ar wefan Paratoi Cymru ers peth amser. Bydd y negeseuon hyn yn cael eu hatgyfnerthu mewn trafodaethau wyneb yn wyneb rhwng ymgynghorwyr a busnesau allforio.

## Cyfathrebu

Roeddech yn gofyn am ragor o wybodaeth ynglŷn â sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod ei negeseuon ynglŷn â pharatoi ar gyfer Brexit heb gytundeb yn glir ac yn gyson, a'i bod yn osgoi'r risg bod busnesau a phobl yn llai parod ar gyfer y sefyllfa hon ar ddiwedd mis Hydref oherwydd eu canfyddiad na fydd yn digwydd o gwbl.

Rydym yn rhannu eich pryder ynglŷn â pharodrwydd trydydd parti, yn enwedig busnesau, a'r goblygiadau posibl o ran parodrwydd cyffredinol. Rydym yn llwyr gydnabod yr her o gysegru adnoddau prin i gynllunio ar gyfer rhywbeth efallai na fydd byth yn digwydd, ond ein neges i fusnesau yw bod y perygl o anwybyddu'r bygythiad o beidio â chael cytundeb yn enfawr. Nid yw'n ddigon ei mentro hi y bydd Senedd y Deyrnas Unedig neu'r UE yn rhoi terfyn ar y cyfan ar y funud olaf unwaith eto. Ond, fel y dywedais yn fy Natganiad Llafar ar 4 Mehefin, gall busnesau gael cymorth a chynngor ariannol ynglŷn â masnachu mewn cyfnodau ansicr ar wefan Busnes Cymru, gan gynnwys ar y Porth Brexit ac ar Paratoi Cymru a drwy Banc Datblygu Cymru.

Rydym yn parhau i bwysu ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno negeseuon cliriach o ran beth y mae canlyniad heb gytundeb yn ei olygu i fusnesau, a pha gamau penodol y dylent eu cymryd i baratoi. Byddwn hefyd yn pwysu ar y Prif Weinidog newydd ynglŷn â hyn.

Rydym hefyd wedi sefydlu amrywiol strwythurau i feithrin cysylltiadau â sefydliadau ar draws Cymru er mwyn i ni gael sgwrs agored am effaith Brexit, casglu gwybodaeth am eu profiadau a chydweithio i baratoi ar gyfer goblygiadau ymarferol niferus ymadael â'r UE.

Rydym yn cyfathrebu ein negeseuon ynglŷn â'r angen i baratoi drwy'r amrywiol grwpiau rhanddeiliaid Brexit, sy'n ymwneud â busnes, yr economi, gwasanaethau cyhoeddus, addysg uwch, amaethyddiaeth, yr amgylchedd, materion gwledig ac iechyd, ac yn eu hannog i ddsbarthu'r wybodaeth i'w haelodau a rhanddeiliaid.

Roeddech yn gofyn hefyd a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw gynlluniau i gynorthwyo busnesau ymhellach i baratoi ar gyfer y sefyllfa hon, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed drwy borth Brexit Busnes Cymru, Banc Datblygu Cymru, a gwefan Paratoi Cymru. Yn benodol, gofynnwyd am y ffigurau defnydd diweddaraf ar gyfer gwefan Paratoi Cymru a phorth Brexit Busnes Cymru.

Fel y prif ffynonellau cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer busnesau, mae gwefan Paratoi Cymru a Phorth Brexit Busnes Cymru yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn rheolaidd. Mae eitemau newyddion yn cael eu creu yn gyson a'u cyhoeddi ar wefan Busnes Cymru i dynnu sylw at yr hyn y mae angen i fusnesau ei wybod a'i wneud i baratoi – gan gynnwys cyngor manwl ar brosesau allforio. Ar 8 Gorffennaf, roedd gan borth Brexit Busnes Cymru dros 34,000 o ddefnyddwyr, gyda 913 o fusnesau yn cwblhau hunanasesiad llawn gyda'r Adnodd Diagnostig – nifer sy'n sylweddol uwch ers dechrau 2019.

Mae Banc Datblygu Cymru yn helpu busnesau Cymru i gael y cyllid y maent ei angen i sefydlu, cryfhau a thyfu. Gall roi benthyciadau o £1k i £5m - yn ogystal â chyllid mesanîn ac ecwiti; ac mae'n helpu busnesau i ddod o hyd i'r partner cyllid cywir i gael trosoledd mewn cyllid preifat. Mae Banc Datblygu Cymru yn awr yn rheoli mwy na £1.1 biliwn o gyllid Llywodraeth Cymru, gan gynnwys dros hanner biliwn o bunnau ar draws yr holl gyllid busnes a'r ddarpariaeth Cymorth i Brynu £454 miliwn yng Nghymru, yn dilyn cynnydd diweddar yn yr adnoddau sydd ar gael gan y Banc.

Yn ogystal â defnyddwyr Porth Brexit Busnes Cymru uchod, ers 8 Gorffennaf, cafwyd dros 33,000 o ymweliadau unigryw â gwefan Paratoi Cymru.

Mae'n hanfodol bod yr estyniad amser i Erthygl 50 yn cael ei ddefnyddio i barhau â'r paratodau ar gyfer Brexit, a'u cryfhau, a helpu busnesau i reoli'r ansicrwydd yn effeithiol. Mae cyllideb atodol gyntaf Llywodraeth Cymru yn cynnwys dyraniadau cyfalaf o £85 miliwn i gefnogi economi Cymru os bydd Brexit heb gytundeb. Mae'n ariannu amrywiaeth o brosiectau a all gael eu darparu'n gyflym o fewn y flwyddyn. Daw hyn â manteision economaidd sy'n gydnaws â'n blaenoriaethau, gan symbylu'r galw economaidd ehangach ar adeg pan fo angen hynny. Wrth wneud y dyraniadau hyn, aseswyd cynigion yn erbyn meini prawf gwerthuso sy'n cynnwys darparu gwerth am arian a pharodrwydd gweithredol cynigion i'w defnyddio yn 2019-20.

## **Cyllid yr UE**

O ran cyllid, roeddech yn gofyn pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal gyda Thrysorlys EM ynghylch sut y bydd tanysgrifennu cynlluniau ariannu'r UE, fel Horizon 2020 ac Erasmus+ yn gweithio'n ymarferol.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cysylltu'n rheolaidd gyda'u swyddogion cyfatebol yn Nhrysorlys EM ynglŷn â gweithredu Gwarant Cyllid UE Llywodraeth y DU. Rydym hefyd wedi nodi'n glir y dylai Llywodraeth y DU drafod gyda'r UE i alluogi sefydliadau'r DU i gymryd rhan yn Horizon 2020, Erasmus+, Ewrop Greadigol a Rhaglen Cymru-Iwerddon ar ôl i ni ymadael â'r UE. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â'n hamcanion ar gyfer cyfranogiad i'r dyfodol, ond ni fydd yn bosibl negodi gyda'r UE ynghylch perthynas y DU i'r dyfodol nes y bydd Cytundeb Ymadael dilys wedi'i sefydlu.

Mewn ymateb i sylw yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 3 Mehefin, sef bod Llywodraeth Cymru yn paratoi i gymryd rhan yn rhaglenni'r UE a gweithgareddau UE eraill yn y dyfodol os ceir estyniad pellach i Erthygl 50, gwnaethoch holi pa weithgareddau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnal fel rhan o'r paratodau hyn.

Byddai estyniad pellach i'r cyfnod a ganiateir dan Erthygl 50 y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn golygu bod y DU yn parhau i fod yn aelod llawn gyda'r gallu i gymryd rhan lawn yn rhaglenni'r UE. I wneud hynny, byddai angen gwneud gwaith paratoi sylweddol. Mae swyddogion yn ystyried goblygiadau hyn, ochr yn ochr â sefyllfaoedd ymadael tebygol eraill. Mae'r UE ei hun yn paratoi ar gyfer dechrau'r fframwaith cyllidol amlflwyddyn nesaf. Fel aelod llawn, rydym yn ymwybodol o'r cynlluniau a'r trafodaethau ar raglenni strwythurol a buddsoddi i'r dyfodol, a dyfodol y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Rydym yn ystyried sut y mae ein gwaith datblygu polisiâu cyffredol yn cyd-fynd â'r rheoliadau drafft cyffredol fel y gallwn ad-drefnu pethau yn gyflym os oes angen i gyd-fynd â fframwaith yr UE. Mae hyn yn cynnwys pennu graddfeydd amser critigol i ddiwallu'r amodau ar gyfer cyllid. Bydd hyn yn rhoi gwybod i ni erbyn pryd y mae angen gwneud penderfyniadau i sicrhau y gallwn ddiwallu'r amodau hynny os oes angen.

## **Deddfwriaeth ar gyfer canlyniad heb gytundeb**

Yn olaf, rydych yn gofyn yn eich llythyr a fyddai'n bosibl i ni roi awgrym i'r Pwyllgor ynglŷn â pha ddeddfwriaeth ychwanegol fydd angen ei phasio gan y Cynulliad i ymdrin ag unrhyw faterion ymarferol a nodwyd fel rhan o gynllunio ar gyfer sefyllfa heb gytundeb.

Yn y mwyafrif helaeth o achosion, mae'r ddeddfwriaeth gywiro wedi creu'r fframwaith statudol sydd ei angen er mwyn i'r llyfr statud barhau ar ôl y diwrnod ymadael.

Rydym yn parhau i adolygu'r angen am unrhyw ddeddfwriaeth frys a all fod ei hangen i ymateb i amgylchiadau anrhagweladwy a all ddigwydd ar ôl y dyddiad ymadael. Mewn sefyllfa lle bydd angen deddfwriaeth bellach, byddwn yn rhoi gwybod i'r Cynulliad Cenedlaethol cyn gynted â phosibl.

Rwy'n gobeithio bod yr ymatebion hyn i'ch cwestiynau o gymorth, a diolch unwaith eto am eich cymorth adeiladol gyda'r mater hwn.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Jeremy Miles', with a stylized, cursive script.

**Jeremy Miles AC**

Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog Brexit  
Counsel General and Brexit Minister